**Draft Additional Learning Needs Code**

**SYLWADAU**

I'w ddarllen wrth gyfeirio at y Ddogfen Cod ei hun, sef *Draft Additional Learning Needs Code* (9.15)

| Tudalen | paragraff | Sylwadau |
|---|---|---|
| 7 | 1<br><br><br><br><br><br><br><br>3 | Mae'r ddogfen yn deud i ddechrau bod Awdurdodau '*must have regard* ' i'r cod newydd, sydd yr un statws â'r cod presennol, **ond**, gweler paragraff 3 wedyn:<br>Mae rhaid i'r Awdurdod allu rhoi gwybodaeth a chyngor, (yn ogystal â gwasanaethau) a chynrychiolaeth annibynnol (*advocacy*).<br>Mae gan yr Awdurdod (ac ysgolion a cholegau addysg bellach) gyfrifoldeb am y paratoi, cynnwys, adolygu ac ail-ymweld â Cynlluniau Datblygu Unigol - CDU (*Individual Development Plans - IDP*) ac i ddod â'r CDU i ben<br>Mae'n deud bod rhaid i'r ysgol/coleg/Awdurdod gydymffurfio ( *must comply*)efo cynnwys y cod ac mae hyn yn gryfach statws na'r cod presennol. |
| 9 | 14 | Nifer o egwyddorion, yn cynnwys y dylid gwneud trefniadau ar y cyfle cynharaf (*earliest opportunities*), cadw'r plentyn yn ganolog yn y broses, a gwneud trefniadau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol – ADY (*Additional Learning Needs - ALN*) fel rhan o bolisi ysgol gyfan. Ni ellir anghytuno â hyn. |
| 13 | 32<br><br>34 | Bydd bob ysgol yn penodi Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol – Cydlynydd ADY (*Additional Learning Needs Co-ordinator - ALNCO*)<br>Mae'n ddyletswydd ar bob athro (*teaching practitioner* - yn cynnwys cymorthyddion?) i gael hyfforddiant mewn anghenion dysgu ychwanegol. |
| 14 | 41<br>43 | Bydd y Cydlynydd ADY yn rhan o uwch dim rheoli'r ysgol.<br>Bydd y Cydlynydd ADY yn gyfrifol am reoli staff ADY, a threfnu adnoddau eraill. |
| 15 | 46 | Bydd y Cydlynydd ADY yn uwchathro (*senior teacher*), gyda chymwysterau priodol. |
| 17 | 49 | Mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i adnabod Swyddog Meddygol Dynodedig (*Designated Medical Officer,* sef yn feddyg) **neu** Swyddog Clinigol Dynodedig (*Designated Clinical Officer*, sef yn nyrs) i gydlynu gwaith y Bwrdd Iechyd ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol. Gall y person hwn fod felly yn nyrs neu'n ddoctor, ac ni fydd unrhyw wahaniaeth yn y dyletswyddau. |
| 19 | 56 | Mae pwyslais ar sicrhau bod rhieni, plant (sef rhai sydd o oed statudol ysgol) a phobl ifanc (16-25 oed) yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau a'r trefniadau. |
| 23 | 79<br><br>81 | Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor, i fod ar gael i'r canlynol:<br>Plant a phobl ifanc, rhieni'r plant, penaethiaid ac unrhyw un perthnasol arall. |
| 24 | 87<br>88 | Mae'r wybodaeth yn cynnwys manylion gweinyddol a threfniadol.<br>Yn cynnwys hefyd - 'materion yn ymwneud ag ADY' |
| 26 | 94<br><br>96<br><br>97 | Mae'r Awdurdod yn gorfod penderfynu (*determine*) a oes gan yr unigolyn ADY.<br>Diffiniad ADY yw anawsterau sydd yn galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol - DDY (*Additional Learning Provision - ALP*).<br>Mae ADY hefyd *'a significantly greater difficulty in learning than the majority of others of the same age'*. |

| | | |
|---|---|---|
| 27 | 101 | Diffiniad DDY yw darpariaeth sydd yn '*additional to, or different from, that made generally for others of the same age'*. |
| 28 | 108 | Nid yw trefniadau i wahaniaethu gwaith yn cyfrif fel DDY. |
| 29 | 113 | Ni fydd pob plentyn efo anabledd yn angenrheidiol yn blentyn ag ADY. |
| 30 | 119 | Nid yw plant galluog a thalentog yn cyfrif fel plant ag ADY. |
| 31 | 125 | Maent yn rhoi rhestr o arbenigwyr sydd yn gallu cynorthwyo yn y broses o adnabod plant ag ADY. |
| 33 | 129 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu hysbysu (*notify*) bod plentyn efallai ag ADY. |
| 35 | 141<br><br><br><br><br>143 | Mae rhaid i'r ysgol benderfynu (*determine*) a oes gan blentyn ADY, **neu**,<br>Cyfeirio'r mater i'r Awdurdod Lleol i benderfynu hyn, **os ydynt yn meddwl**<br>Bod y mater tu hwnt i'w medrusrwydd (*capability*) **neu**<br>Fod ADY y plentyn yn galw am DDY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol yna ei darparu.<br>Mae dyletswydd ar bob ysgol sydd yn cael ei chynnal asesu lefel cyrhaeddiad plentyn dros amser, |
| 38 | 156 | Os yw'r ysgol wedi penderfynu bod plentyn ag ADY, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu Cynllun Datblygu Unigol - CDU (*Individual Development Plan - IDP*) |
| 39 | 164<br><br>166 | Mae myfyrwyr mewn colegau addysg bellach sydd efo ADY yn gorfod datgan hun eu hunain, bod nhw o'r farn efallai eu bod ag ADY.<br>Nid yw trefniadau i wahaniaethu gwaith yn cyfrif fel DDY mewn coleg addysg bellach chwaith. |
| 40 | 169 | Os yw'r ysgol yn penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bydd rhaid hysbysu'r rhieni a'r plentyn o hyn. |
| 42 | 184 | Mae'r Awdurdodau i fod i sefydlu grwpiau i drafod a chysoni i'w gilydd ar draws ardaloedd. |
| 44 | 196<br><br><br>199 | Bydd rhaid i'r Awdurdod benderfynu (*determine*) a oes gan blentyn ADY a darparu DDY '*where the child or young person's needs are more severe or complex'*.<br>Fedr hyn ddigwydd **os,**<br>Oes gan y plentyn gyflwr sydd yn digwydd ond yn anaml, **neu**,<br>Mae'n golygu eu bod angen cyngor a chynhaliaeth reolaidd gan asiantaethau allanol, **neu**,<br>Mae angen cyfarpar sydd tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol, **neu**,<br>Mae angen '*very intensive daily support which cannot be reasonably funded or secured by the school or college budget*'. |
| 45 | 203 | Os yw achos wedi ei amlygu i'r Awdurdod Lleol ('*brought to the attention of*') sydd efallai ag ADY ac nad oes CDU ar gyfer y person hwnnw, mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu (*determine*) a oes ganddo ADY. |
| 46 | 205<br><br>207<br><br><br>208 | Mae rhaid i Awdurdod benderfynu a oes gan blentyn ADY os ydynt yn byw yn yr ardal.<br>Fedr Awdurdod beidio penderfynu ar ('determine') a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY mewn rhai amgylchiadau, yn cynnwys os yw'r ysgol neu goleg ei hun yn gwneud hynny.<br>Ond, os oes apêl, gan y plentyn, person ifanc, neu'r rhiant, yna bydd rhaid iddynt wneud y penderfyniad llawn. |
| 47 | 211 | Os yw Awdurdod wedi penderfynu bod gan blentyn ADY, mae'n rhaid iddynt **un ai**,<br>Paratoi a Chynnal CDU, **neu**,<br>Paratoi CDU a chyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal, **neu**,<br>Gyfarwyddo'r ysgol i wneud y ddau, sef paratoi a chynnal y CDU. |

| | | |
|---|---|---|
| 48 | 217 | Os yw plentyn neu'i rieni'n herio cynnwys CDU, bydd rhaid i'r Awdurdod ail-ystyried (*'reconsider'*) y CDU. |
| 49 | 226 | Bydd rhaid i Awdurdod Lleol ystyried cais gan riant neu blentyn neu berson ifanc i gymryd dros y cyfrifoldeb am CDU. |
| 50 | 231<br>236 | Mae rhaid i Awdurdod Lleol gadw bob DDY dan arolygiaeth.<br>Mae gan yr Awdurdod hawl i fynd ar dir ysgolion a cholegau mewn rhai amgylchiadau. |
| 52 | 240<br>241 | Rhaid i'r CDU gynnwys rhai pethau, yn cynnwys:<br>Disgrifiad o'r ADY a'r DDY. |
| 53 | 247 | Hefyd, rhaid cynnwys gwybodaeth fywgraffiadol. |
| 54 | 252 | A chynnwys yr allbynnau y bwriedir eu gweld (*'intended outcomes'* - targedau). |
| 56 | 259<br><br>260 | Rhaid i CDU hefyd gynnwys *'what was discussed and agreed throughout the process of creating the DDY'*.<br>Mae cynnwys y DDY yn cael ei greu gan asiantaethau a phobl broffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd, wedi ei ddatblygu mewn ffordd hyblyg, wedi ei ganoli ar yr unigolyn. Mae'n hawdd i'w ddarllen, a does dim jargon. |
| 58 | 270<br><br>275 | Mae hefyd yn cynnwys Proffil un Dudalen, yn rhoi'r wybodaeth mewn ffordd gryno a hawdd i'w hamgyffred.<br>Rhaid cynnwys cyfraniadau gan bobl broffesiynol, yn cynnwys asiantaethau allanol megis Iechyd, Gwaith Cymdeithasol. |
| 59 | 278 | Mae pwyslais ar yr *'IDP meeting'*. H.y. mae angen cyfarfod i ffurfio'r CDU. |
| 60 | 287<br><br><br>290 | Rhaid i unrhyw wybodaeth ynglŷn ag, er enghraifft, faint o gymorth Therapydd Lleferydd mae rhywun yn ei gael bob wythnos, fod wedi ei gytuno efo'r asiantaethau eu hunain o'r dechrau.<br>Hefyd, rhaid gosod yr *'intended outcomes'.* |
| 61 | 296 | Rhaid i'r allbynnau fod yn *SMART*, sef:<br>*Specific, Measurable, Achievable, Realistic, Time-bound.* |
| 62 | 298<br>300 | Rhaid i'r CDU gynnwys digwyddiadau allweddol,.<br>Mae hyn yn cynnwys profion a nodiadau gan seicolegwyr ac eraill. |
| 65 | 309 | Mae'n pwysleisio eto bod angen cyfarfod i baratoi'r CDU. |
| 66 | 315<br>318<br><br>319 | Rhaid paratoi CDU cychwynnol o fewn 7 wythnos.<br>Os bydd yr ysgol yn cyfeirio'r mater i'r Awdurdod, rhaid penderfynu hyn mewn 1 wythnos.<br>Os bydd yr Awdurdod yn gorfod penderfynu a oes gan rywun ADY, mae ganddynt wedyn 10 wythnos i ddarparu CDU. |
| 67 | 323 | Mae rhaid i'r Awdurdod anfon CDU drafft i bawb oedd yn y cyfarfod, a'i newid o yng ngolwg sylwadau pawb yn cynnwys y rhieni. |
| 69 | 332 | Mewn achosion cymhleth, bydd asiantaethau allanol yn cyfrannu at y broses, yn cynnwys cyngor addysgol, cyngor meddygol, seicolegol a.y.y.b. fel sydd yn digwydd ar hyn o bryd. |
| 70 | 335 | Bydd rhaid i'r bobl broffesiynol yma fod ag yr awdurdod i wneud penderfyniadau a *'be accountable for these decisions'.* |
| 72 | 345 | Rhaid i Fwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol sicrhau'r ddarpariaeth sydd wedi ei nodi yn y CDU, ond mae hyn yn ddarpariaeth maen nhw eisoes wedi cytuno i ddarparu. |
| 74 | 353 | Mae'n sôn am gludiant ond nid yw'n rhoi manylion. |
| 76 | 362 | Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i 'ffafrio' addysgu plant mewn ysgolion prif-lif. |
| 78 | 371 | Mae awdurdod yn gallu enwi ysgol i sicrhau bod y plentyn yn cael mynediad i'r ysgol honno. |

| | | |
|---|---|---|
| 81 | 396 | Bydd angen ystyried darpariaeth breswyl,<br>Os nad oes modd cwrdd ag anghenion y plentyn mewn darpariaeth ddyddiol leol, **neu**,<br>Os oes angen rhaglen gyson yn ystod oriau ysgol ynghyd â thu allan i oriau ysgol. |
| 82 | 399 | Bydd angen cyllido rhai pethau ar y cyd efo Byrddau Iechyd mewn rhai achosion, fel ar hyn o bryd. |
| 83 | 405 | Bydd angen adolygu CDU o fewn 12 mis. |
| 84 | 410 | Ac adolygu o fewn tri neu chwe mis efo plant ‘ifanc iawn’. |
| 85 | 418 | Mewn cyfarfod adolygu weithiau bydd adroddiad ysgrifenedig gan asiantaethau allanol yn ddigonol, os nad oes modd i’r person proffesiynol fynychu’r cyfarfod. |
| 89 | 438 | Weithiau bydd yr Awdurdod neu’r ysgol yn penderfynu dod â Chynllun Datblygu Unigol i ben. |
| 95 | 452 | Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i roi trefniadau mewn lle i ddatrys anghydfod ac anghytundeb. |
| 99 | 480 | Rhaid i’r Awdurdod sicrhau bod Gwasanaeth Advocacy ar gael, sef corff sydd yn cymryd rhan y plenty neu berson ifanc, a hyrwyddo ei allu i fynegi’i farn. |
| 102 | 492 | Mae gan y plentyn, y person ifanc, neu’r rhieni'r hawl i apelio i’r Tribiwnlys os nad ydynt yn fodlon efo nifer o gamau yn y broses. |